Archwilio Cymru
Audit Wales

# Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Blwyddyn archwilio: 2022–23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3926A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Yr hyn y gwnaethom edrych arno—cwmpas yr archwiliad hwn 4

Pam y cynhaliwyd yr archwiliad hwn 5

Trefniadau adrodd perfformiad y Cyngor 5

Yr hyn a ganfuwyd gennym 6

Darperir amrywiaeth o wybodaeth i uwch-arweinwyr i'w helpu i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, er bod hyn yn amrywio ar draws gwasanaethau, ond mae gwybodaeth am ganlyniadau yn gyfyngedig, gan gyfyngu ar eu gallu i reoli perfformiad yn effeithiol 6

Argymhellion 9

Atodiadau

Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano 10

# Crynodeb o'r adroddiad

1 Gwnaethom ystyried safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a'r wybodaeth am ganlyniadau a ddarparwyd i uwch-swyddogion ac uwch-aelodau (uwch-arweinwyr), a'r modd y defnyddir yr wybodaeth hon.

2 Yn gyffredinol, canfuom fod uwch-arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn cael gwybodaeth sy'n eu helpu i ddeall pa mor dda y mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau a'r polisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, ond mae gwybodaeth am ganlyniadau ei weithgareddau yn gyfyngedig gan gyfyngu ar eu gallu i reoli perfformiad yn effeithiol.

3 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i gryfhau'r wybodaeth a roddir i uwch-arweinwyr.

# Yr hyn y gwnaethom edrych arno—cwmpas yr archwiliad hwn

4 Gwnaethom ganolbwyntio ar yr wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd i uwch-swyddogion ac uwch-aelodau (uwch-arweinwyr), ynghylch safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau, a'r modd y defnyddir yr wybodaeth hon. Ni wnaethom gynnal adolygiad llawn o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor nac adolygiad manwl o ansawdd y data y mae'r Cyngor yn eu casglu. Ni chanolbwyntiodd yr adolygiad ychwaith ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ar newidiadau gwasanaeth penodol nac ar ddatblygu polisïau a strategaethau.

5 Rydym wedi cynnwys ein cwestiynau a'n meini prawf archwilio yn **Atodiad 1**. Yn y bôn, mae'r meini prawf archwilio yn nodi sut mae da yn edrych a'r hyn yr ydym yn disgwyl ei ganfod.

6 Yn gyffredinol, roeddem yn chwilio am wybodaeth am berfformiad a rennir ag uwch-arweinwyr i'w helpu i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a pha mor dda y maent yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r canlyniadau y mae'n gweithio tuag atynt. Roeddem hefyd yn edrych er mwyn sicrhau bod uwch-arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r cynnydd ac yn gweithredu pan fo angen gwella canlyniadau.

7 Mae hyn yn rhan bwysig o'r trefniadau, gan fod angen gwneud yn siŵr bod cynghorau'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Mae hefyd yn ffordd bwysig lle gall y Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn gweithredu yn unol â'r ffordd 'ymwneud' o weithio gan gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Heb yr wybodaeth hon, mae'n anodd gweld sut y gall uwch-arweinwyr ddeall a yw eu polisïau a'u gweithredoedd yn cael yr effaith a fwriedir ac yn gwneud newidiadau pan nad ydynt.

8 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar ddogfennau a adolygwyd a chyfweliadau gydag Aelod y Cabinet, y Cyfarwyddwr ac uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am

drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Cyfyngwyd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2023.

9 Aethom ati i ateb y cwestiwn **'A yw gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn galluogi uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau er mwyn rheoli ei berfformiad yn effeithiol?**' Gwnaethom hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau?
- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ganlyniadau gweithgareddau y Cyngor?
- A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir?
- A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau?
- A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau?

# Pam y cynhaliwyd yr archwiliad hwn

10 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

11 Gwnaethom geisio gwneud yr hyn a ganlyn:

- cael sicrwydd bod yr wybodaeth am berfformiad y mae'r Cyngor yn ei darparu i uwch-swyddogion ac aelodau etholedig yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniad ei weithgareddau;
- cael sicrwydd bod yr wybodaeth hon yn ffurfio rhan o drefniadau sicrhau gwerth am arian y Cyngor wrth iddo ddefnyddio ei adnoddau ac wrth iddo gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy; a
- adnabod cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

# Trefniadau adrodd perfformiad y Cyngor

12 Mae'r Cyngor yn llunio adroddiadau Adolygiad Perfformiad y Gwasanaethau bob chwe mis. Mae'r rhain yn cynnwys manylion perfformiad a chynnydd gwasanaethau unigol tuag at amcanion llesiant 2022–27 yn ogystal â gwybodaeth monitro ariannol. Cyflwynir adroddiadau adolygu perfformiad y gwasanaethau i aelodau perthnasol y Tîm Uwch Arweinyddiaeth, deiliaid portffolio ac aelodau'r pwyllgor craffu.

13 Mae'r Cyngor yn llunio sawl adroddiad perfformiad blynyddol sy'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Mae'r rhain yn cynnwys ei hunanasesiad corfforaethol ac adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

14 Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar y dulliau adrodd perfformiad allweddol hyn.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Darperir amrywiaeth o wybodaeth i uwch-arweinwyr i'w helpu i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, er bod hyn yn amrywio ar draws gwasanaethau, ond mae gwybodaeth am ganlyniadau yn gyfyngedig, gan gyfyngu ar eu gallu i reoli perfformiad yn effeithiol

**Darperir amrywiaeth o wybodaeth i uwch-arweinwyr sy'n eu galluogi i ddeall barnau defnyddwyr gwasanaethau, ond mae hyn yn amrywio ar draws gwasanaethau, gan gyfyngu ar allu uwch-arweinwyr i gael trosolwg cynhwysfawr o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.**

15 Mae'r Cyngor wedi cynnwys adran benodol yn y templed ar gyfer ei adroddiadau Adolygu Perfformiad Gwasanaethau sy'n annog gwasanaethau i nodi'r hyn y maent wedi ei ddysgu o sgyrsiau gyda chwsmeriaid a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i ymgysylltu â chwsmeriaid a sylwadau.

16 Canfu ein hadolygiad o sampl o adroddiadau Adolygu Perfformiad Gwasanaethau enghreifftiau o wybodaeth a fyddai'n helpu uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys astudiaethau achos, dyfyniadau a dadansoddiad o sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, nododd rhai gwasanaethau eu bod wedi cynnal arolwg ond nad oeddent yn cynnwys nac yn dadansoddi'r sylwadau. Mae hyn yn gyfle a gollwyd i roi gwybodaeth i uwch-arweinwyr a fyddai'n eu helpu i ddeall beth mae defnyddwyr gwasanaethau yn ei feddwl am y gwasanaeth ac i weithredu ar y sylwadau.

17 Wrth inni ganfod bod y Cyngor yn darparu ystod o wybodaeth am farn defnyddwyr gwasanaethau i uwch-arweinwyr, gwnaethom archwilio a oedd yr wybodaeth hon yn deillio o amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau. Canfuom fod y Cyngor un ceisio safbwyntiau o ystod amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaethau weithiau, ond nad yw'r dadansoddiad yn cael ei rannu ag uwch-arweinwyr fel arfer. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod yr wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn dod o ystod amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, a'i bod yn berthnasol i'r amcanion y mae wedi eu pennu iddo ei hun. Heb yr wybodaeth hon, bydd yn anodd i'r Cyngor ddeall a yw'n cyflawni ei amcanion ac a yw anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu diwallu.

## Mae'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredoedd ac allbynnau yn hytrach na chanlyniadau

18 Yn gyffredinol, canfuom fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarperir i uwch-arweinwyr yn canolbwyntio ar allbynnau a gweithgareddau yn hytrach na chanlyniadau.

19 Mae adroddiad cynnydd blynyddol y Cyngor yn cynnwys adrannau o'r enw sut y byddwn yn gwybod a ydym yn gwneud gwahaniaeth. Ond, yn gyffredinol, canfuom fod yr adroddiad yn cynnwys llawer o wybodaeth sy'n seiliedig ar allbwn a gweithgareddau yn hytrach na gwerthusiad o ganlyniad y gweithgareddau hyn. Mae hyn yn cyfyngu ar allu uwch-arweinwyr i ddeall effaith gweithgareddau y Cyngor ac a yw'n cyflawni ei amcanion.

20 Canfuom rai enghreifftiau o wybodaeth am ganlyniadau a adroddir i uwch-arweinwyr, ac roedd hyn yn deillio o ystod o ffynonellau tystiolaeth i helpu i ddarparu safbwynt cyfannol o'i berfformiad. Roedd hyn yn cynnwys cyfuniad o astudiaethau achos, dyfyniadau uniongyrchol a dadansoddiadau o ymatebion arolwg yn ogystal â chwynion a chanmoliaeth. Gall rhannu gwybodaeth am ganlyniadau drwy astudiaethau achos a dyfyniadau uniongyrchol helpu uwch-arweinwyr i ddeall effaith gweithgareddau y Cyngor, er eu bod yn tueddu i ymwneud â nifer bach o unigolion ac efallai na fyddant yn darparu darlun cynrychioliadol a chynhwysfawr o'r perfformiad.

## Mae gan y Cyngor drefniadau i wirio cywirdeb ei ddata perfformiad, ond yn gyffredinol, nid yw'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau

21 Mae gan y Cyngor drefniadau sy'n helpu i roi rhywfaint o sicrwydd i uwch-arweinwyr bod cywirdeb y tu ôl i'r wybodaeth am berfformiad a roddir iddynt. Er enghraifft, mae gan y Cyngor ddatganiadau dull sy'n nodi sut y cyfrifir pob dangosydd ac i ba amcan corfforaethol y maent yn perthyn. Gwelsom enghraifft o sut mae'r Cyngor wedi ystyried ei ymagwedd tuag at un mesur ynghylch safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.

22 Mae swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cyngor hefyd wedi cynnal adolygiadau o gywirdeb data ac aeth y Cyngor i'r afael â gwendidau. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiadau hyn wedi cynnwys canlyniadau na data safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn benodol.

23 Gan ein bod wedi canfod bod y Cyngor yn darparu ystod o wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau i uwch-arweinwyr, byddem wedi disgwyl i drefniadau y Cyngor ddarparu cwmpas gwell o'r math hwn o wybodaeth. Byddai hyn yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei hun bod ei wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn gywir. Oni bai bod y Cyngor yn sicrhau bod ei drefniadau cywirdeb data yn benodol yn cynnwys data safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau, mae risg y gellir gwneud penderfyniadau, cymryd camau, a defnyddio adnoddau ar sail gwybodaeth anghywir.

## Mae'r Cyngor yn defnyddio data safbwynt defnyddwyr gwasanaethau fel ffynhonnell o wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei amcanion

24 Pan nodir perfformiad gwael, megis cwynion cynyddol mewn maes gwasanaeth, mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau i wneud newidiadau neu i addasu cynlluniau a oedd ar y gweill. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn cynnwys manylion am y camau unioni a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn ei adroddiadau cwynion a gyflwynir i uwch-arweinwyr.

25 Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried safbwynt defnyddwyr gwasanaethau wrth sgorio yn ei adroddiad statws risg. Mae hyn yn pwysleisio bod y Cyngor yn gwerthfawrogi ac yn defnyddio'r math hwn o wybodaeth.

26 Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau yr ydym wedi eu nodi am y canlyniadau a'r wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, mae hyn yn cyfyngu'r graddau y gall y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth hon.

## Mae adolygiad y Cyngor o'i drefniadau perfformiad wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o gryfhau'r broses adrodd ar ganlyniadau, ond nid yw wedi mynd i'r afael â sut y gall gryfhau'r wybodaeth a ddarperir am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.

27 Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli perfformiad yn barhaus ac yn ffurfiol. Mae'r Cyngor wedi llunio Fframwaith Rheoli Perfformiad drafft newydd i'w helpu i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2022–27 sy'n pwysleisio pwysigrwydd gwerthuso a chyfleu effaith ei weithgareddau.

28 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi ymdrin yn benodol â'r wybodaeth a ddarparwyd am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn yr adolygiad hwn. Mae hyn yn gyfle a gollwyd, a byddai'r Cyngor yn elwa o ffactorio hyn yn ei adolygiadau yn y dyfodol i weld sut y gallai gryfhau ei wybodaeth i helpu uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr ei wasanaethau yn well, gan ystyried ein canfyddiadau a nodir ym mharagraff 17.

29 Nid yw'r Cyngor yn cymharu'r math o wybodaeth y mae'n ei chasglu na dulliau casglu ar safbwynt defnyddwyr gwasanaethau na chanlyniadau â'r wybodaeth y mae sefydliadau tebyg yn ei chasglu. Nid ydym yn golygu cymharu'r perfformiad ynddo ei hun, ond i'w helpu i ddysgu sut mae sefydliadau eraill yn darparu gwybodaeth am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau i'w helpu i gryfhau ei drefniadau ei hun. Mae hon yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

**Arddangosyn 1: Argymhellion**

A1 **Gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau**

Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i'w uwch-arweinwyr yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau ar ystod ehangach o wasanaethau a pholisïau. Dylai hyn gynnwys cryfhau ei drefniadau fel y gall sicrhau ei hun bod yr wybodaeth hon yn deillio o amrywiaeth defnyddwyr gwasanaethau.

A2 **Gwybodaeth am ganlyniadau**

Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch-arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'i ganlyniadau arfaethedig.

A3 **Cywirdeb y data**

Dylai'r Cyngor wneud yn siŵr bod ei drefniadau sicrhau ansawdd data yn cynnwys safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a gwybodaeth am ganlyniadau fel y gall sicrhau ei hun bod yr wybodaeth hon yn gywir.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a’r hyn yr ydym yn chwilio amdano

**Arddangosyn 2: cwestiynau allweddol a’r hyn yr ydym yn chwilio amdano**

Mae’r tabl isod yn nodi’r cwestiwn y ceisiwyd ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â’r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

| **Lefel 1** | |
|---|---|
| A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau er mwyn rheoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf archwilio[1] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)** |
| 2.1 A yw’r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau? | • Mae’r wybodaeth<br>– yn berthnasol i’r amcanion y mae’r Cyngor wedi eu pennu iddo ei hun;<br>– yn ddigonol i alluogi dealltwriaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau;<br>– yn ddigonol i ddarparu dealltwriaeth o’r cynnydd tuag at y canlyniadau y mae’r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni;<br>– yn deillio o amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys grwpiau sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig; ac<br>– yn cael ei defnyddio i lywio cymariaethau â pherfformiad cyrff tebyg pan fo hynny’n berthnasol.<br>• Mae’r Cyngor wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu pa wybodaeth i’w chasglu. |

[1] Mae ein meini prawf archwilio wedi eu llywio gan ein gwybodaeth gronnol o waith archwilio blaenorol, yn ogystal â’r hierarchaeth gwestiynau a’r dangosyddion cadarnhaol a ddatblygwyd gennym i gefnogi ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy.

| Lefel 1 | |
|---|---|
| A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau er mwyn rheoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf archwilio[1] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)** |
| 2.2 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ganlyniadau gweithgareddau y Cyngor? | • Mae'r wybodaeth yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth i ddarparu safbwynt cyfannol ar gynnydd.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch-arweinwyr i fonitro cynnydd yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch-arweinwyr i fonitro'r broses o gyflawni canlyniadau sy'n cwmpasu sawl maes gwasanaeth a/neu sefydliad. |
| 2.3 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir? | • Mae gan y Cyngor drefniadau clir ar gyfer gwirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n eu darparu i uwch-arweinwyr.<br>• Pan adnabyddir gwendidau yn ansawdd y data, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw. |
| 2.4 A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau? | • Pan adnabyddir perfformiad gwael, mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau/ymyriadau.<br>• Mae tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella ei gynnydd tuag at ei ganlyniadau o ganlyniad i ymyriadau. |
| 2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau? | • Mae'r Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir i uwch-arweinwyr er mwyn sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.<br>• Mae'r Cyngor yn cymharu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg er mwyn cael cyfleoedd i gryfhau ei drefniadau. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.